**<u>Mae Hawlfraint ar y Deunydd hwn</u>**

Mae Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi gofyn am a chael caniatâd i ddarparu'r deunydd hwn ar CD at ddibenion addysgol yn unig. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r deunydd hwn, ac ni ellir ei atgynhyrchu ychwaith.

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol.**
**Er mwyn cael rhagor o fanylion ar yr AIG ewch i'w gwefan: www.nya.org.uk**

**Ieuenctid Mewn Cymdeithas**

# PROFIAD A CHYFRANOGIAD

## Adroddiad Grŵp Adolygu'r Gwasanaeth Ieuenctid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth, Awst 1982.

Cyhoeddwyd yn Hydref 1982

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## Cynnwys

Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys

**CYFLWYNIAD:** Cylch gorchwyl; Dulliau gweithredu

**RHAN 1: BETH MAE'R GWASANAETH IEUENCTID YN EI WNEUD**

Pennod 1: Y Gymuned ac Ieuenctid – Cenhedlaeth o Newid
Pennod 2: Ieuenctid a'r Gymdeithas – Y Sefyllfa Heddiw
Pennod 3: Datblygiad Personol a sut y gellir ei gyflawni

**RHAN 2: ASESIAD A RHAGOLWG**

Pennod 4: Barn y Gwasanaeth Ieuenctid drwy Gyflwyniadau i'r Grŵp Adolygu
Pennod 5: Adolygiad Beirniadol o'r Gwasanaeth Ieuenctid
Pennod 6: Her ac Ymateb
Pennod 7: Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer yr 1980au.

**RHAN 3: STRWYTHURAU AC ADNODDAU**

Pennod 8: Strwythurau
Pennod 9: Staffio a Hyfforddiant
Pennod 10: Adnoddau
Pennod 11: Yr Angen am Ddeddfwriaeth
Pennod 12: Crynodeb o'r Argymhellion

(Mae'r prif argymhellion wedi cael eu printio mewn inc **tywyll** yn y crynodeb hwn)

---

**Cyflwyniad**

Cawsom ein sefydlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Ionawr 1981 i gynnal arolwg o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn Lloegr, gyda'r cylch gorchwyl canlynol:

1. Adrodd yn ôl ar y ddarpariaeth bresennol, statudol a gwirfoddol;
2. Ystyried a ellir defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithiol; ac, yn sgìl hyn,
3. Asesu'r angen am ddeddfwriaeth.

Daethom i'r casgliad yn gynnar yn yr ymchwiliad, er bod yn rhaid derbyn bod y 'Gwasanaeth Ieuenctid' yn golygu'r system o glybiau, adnoddau hamdden, canolfannau a gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol ar gyfer pobl ifanc, nad oedd modd i ni asesu'r ddarpariaeth yn iawn os oeddem yn cyfyngu ein sylw ar yr agweddau hyn yn unig.

Ar wahân i'r ysgolion a cholegau addysg bellach, mae'r gwaith a wneir gyda grwpiau o bobl ifanc ac unigolion yn cael ei wneud gan yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol mewn nifer o awdurdodau, gwasanaethau sydd yn darparu ar gyfer chwaraeon a hamdden, y gwasanaethau prawf a'r heddlu, tra bod ymgyrch fawr wedi cael ei gwneud gan Gomisiwn Gwasanaethau Manpower i'r maes hwn dros y chwe blynedd ddiwethaf. Roedd yn edrych yn debyg i ni y byddai'n rhaid i asesiad cywir o'r ddarpariaeth Gwasanaethau Ieuenctid gynnwys arolwg
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

trylwyr o'r hyn a wnaed o fewn y ffiniau hyn, ynghyd â thu hwnt iddynt hefyd.

Ar yr ochr bositif, mae'n rhaid i ni dynnu sylw at yr amrywiaeth helaeth o ddarpariaethau sydd ar gael i bobl ifanc, ynghyd â'r toreth o syniadau newydd a geir o fewn yr amrywiol asiantaethau sy'n gweithio yn y maes hwn. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid a'i hanes o amrywiol ddulliau gweithredu a thraddodiadau yn cynnwys nodweddion sydd yn hanfodol berthnasol i sefyllfa pobl ifanc heddiw, yn enwedig y traddodiadau sydd ynghlwm â gwirfoddoli, y pwyslais sydd ar berthnasau personol, a'r syniad o gyfranogiad gweithredol gan y bobl ifanc er mwyn creu eu darpariaeth eu hunain. *(3.46)*

Ar y llaw arall, mae dylanwad yr holl ddarpariaethau yma yn gymysglyd oherwydd bod yr holl asiantaethau sy'n gweithio yn y maes yn tueddu i fod yn ynysig iawn wrth ddatblygu eu polisïau a'u gweithredoedd, a defnyddio eu hadnoddau. Mae angen gwneud strategaeth sydd yn fwy unedig, a hynny ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'n rhaid i ni hefyd dynnu sylw at y ffaith nad yw'r bwriadau da sydd wedi ysbrydoli llawer o'r hyn a ddarperir yn cael eu gweithredu bob amser. Er enghraifft, er bod sawl galw wedi bod ar bobl ifanc i gynnal eu digwyddiadau eu hunain, mae'r datblygiad yn hyn o beth wedi bod yn araf iawn. Mae safonau'r ddarpariaeth gyffredinol yn anghyson iawn, ac yn bwysicaf oll, mae'r rhwydwaith yn parhau i fod yn anorffenedig, sy'n golygu nad yw'r addysg gymdeithasol sydd ei gwir angen ar rai pobl ifanc yn eu cyrraedd.

**Adolygiad Beirniadol o'r Gwasanaeth Ieuenctid**

Wedi'n hwynebu gan sbectrwm eang o anghenion, mae'n rhaid i ni nodi fel egwyddor gyntaf bod **gan y Gwasanaeth Ieuenctid** y cyfle **a'r ddyletswydd i gynorthwyo pob person ifanc sydd angen cael eu cynorthwyo.** I rai pobl ifanc, efallai mai modd o ehangu eu profiadau mewn ffordd bleserus yn unig yw'r Gwasanaeth, ond efallai ei fod yn wasanaeth achub go iawn i eraill. Yn ein barn ni, mae'n bwysig ei fod yn parhau i gyflawni'r ddau bwrpas yma, heb ganolbwyntio ar un ohonynt ar draul y llall. *(5.2)*

**Yr agwedd yma** yn benodol **sydd yn rhoi'r potensial i'r Gwasanaeth fod yn un o'r dulliau pwysicaf o gyflwyno addysg gymdeithasol.** Pan roddir yr holl gyfleoedd i bobl ifanc gael profiadau perthnasol, a phan fo ganddynt yr hyder i gydio yn y cyfleoedd hynny gan wybod beth y maent yn cydio ynddo, bydd eu datblygiad personol yn dilyn. Pan nad yw'r cyfleoedd hynny ar gael, mae'r hyder i wneud penderfyniadau yn diflannu, a gallai hyn arwain at ymeithrio, o ganlyniad i rwystredigaeth ac anobaith difrifol. *(5.3, 5.4)*

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi datblygu dulliau ac adnoddau sydd wedi eu haddasu'n arbennig ar gyfer yr anghenion hyn. Y rhai amlycaf ymhlith y rhain yw:

**Y cwricwlwm dysgu drwy brofiad:**

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn credu'n gryf yn ei rôl addysgiadol, gyda phwyslais ar yr egwyddor o 'ddysgu trwy wneud'. Mae'r broses yn dechrau gyda phrofiad ac yn arwain drwy adlewyrchu at brofiad pellach, sydd yn brofiad mor eang â phosib ac wedi ei hunan-raglenni.

**Cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau:**

Efallai bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn rhoi'r profiad cyntaf i nifer o bobl ifanc i wneud a gweithredu ar benderfyniadau grŵp, ac i arwain eu gweithgarwch eu hunain law yn llaw ag eraill mewn modd effeithiol a chyfrifol.

**Gwirfoddoli:**

Un o hanfodion y Gwasanaeth Ieuenctid yw bod pobl ifanc yn parhau i fod yn rhydd i gymryd rhan, neu i beidio cymryd rhan fel y maent yn dymuno. Mae unrhyw fath o orfodi yn dinistrio'r hanfod hwn. Mae'r ffaith bod cyfran helaeth o weithlu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio'n rhan amser neu yn wirfoddolwyr hefyd yn nodwedd bwysig o'r Gwasanaeth. Mae cyfraniadau'r bobl amrywiol yn atgyfnerthu natur brofiadol y broses addysgu cymdeithasol a gynigir gan y Gwasanaeth Ieuenctid.

**Perthynas ddi-orchymyn rhwng gweithwyr a phobl ifanc:**

Mae rhyw awdurdod yn perthyn i weithwyr ieuenctid, ond mae'n rhaid i'r awdurdod hwnnw fod yn un sy'n wahanol iawn i'r un y mae pobl ifanc yn siŵr o fod wedi ei brofi gan athrawon, rhieni ac oedolion eraill sy'n gofalu (neu rai nad ydynt yn gofalu). Yn fras, mae pobl ifanc yn teimlo bod eu barn a'u hagweddau yn cael eu trin gyda pharch gyda'r gweithiwr ieuenctid cywir.

Mae'n rhaid nodi mai dim ond yn rhannol y cydnabyddir y potensial hwn, ac o ganlyniad nid yw'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cyrraedd anghenion addysg cymdeithasol y bobl ifanc mor llawn ac y gallai. *(5.7)*

Yn ein barn ni, mae'r rhesymau dros y methiant i wireddu'r addewid llawn yn mynd yn ddyfnach nag adnoddau'r Gwasanaeth Ieuenctid yn unig. Yn gymaint ag y gallwn ni ei ddiffinio, dyma'r ffactorau sylfaenol:

**(1)** Methiant i ddarganfod theori addysg gymdeithasol gydlynol sydd yn cael ei derbyn yn gyffredinol.

**(2)** Methiant i drosglwyddo ystyr a phwysigrwydd addysg gymdeithasol.

**(3)** Ymateb darniog ac anghyflawn i anghenion cymdeithasol newydd.

**(4)** Methiant i werthfawrogi gwerth a phwrpas yr holl offer sydd yn barod i'w ddefnyddio, i gadw cydbwysedd cywir rhyngddynt a'u cymhwyso ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud, sydd yn amrywio o ardal i ardal ac mewn amser hefyd.

**(5)** Methiant i fanteisio i'r eithaf ar yr holl ddulliau. Mae mentrau yn cychwyn heb iddynt fod wedi cael eu gwerthuso'n iawn, ac yna nid ydynt yn cael eu monitro yn gywir. Efallai eu bod wedyn yn dirywio oherwydd diffyg cefnogaeth, er eu bod yn llwyddiannus.

**(6)** Methiant i gymryd y berthynas gyda'r gymuned leol o ddifrif. Weithiau, mae'r symbyliad i fynd am strategaeth gynhwysfawr yn dinistrio'r ymateb i grwpiau cymunedol bach ond pwysig.

**(7)** Methiant i gynnal cyswllt gyda darparwyr gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â Gwasanaethau Ieuenctid.

**(8)** Cyfleoedd annigonol i bobl ifanc drefnu neu rannu'r profiad o gynnal eu digwyddiadau eu hunain, neu i fedru ymwneud yn llwyr â gwaith cynnal y Gwasanaeth Ieuenctid.

**(9)** Darpariaeth annigonol i ymateb i anghenion pobl ifanc dros 16 oed.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r ffactorau hyn yn agweddau ar reolaeth neu hyfforddiant *(5.8, 5.9)*

Rydym wedi gweld rhai clybiau ardderchog a rhai clybiau gwael. Pan eu bod yn rhai da, mae'r trefnwyr, boed yn statudol neu yn wirfoddol, fel arfer wedi llwyddo yn gyntaf i gynnal cysylltiadau gyda'r gymuned leol, ac yn ail i annog cyfranogiad llwyr yr aelodau mewn amrywiol ffyrdd. Nid cyfri'r nifer o bobl sy'n mynychu yw'r ffordd o fesur llwyddiant – er bod clwb sydd fel arfer yn llwyddiannus mewn ffyrdd eraill yn dueddol o ddenu nifer

eang o fynychwyr – ond trwy fesur y boddhad y maent yn ei gael ohono, yn y penrhyddid sydd ganddynt i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, yn amrywiaeth a ffresni'r gweithgareddau a wneir, yn y nifer o weithwyr rhan-amser a gwirfoddol sydd yn cymryd rhan, ac er yn llai diriaethol, yn y modd mae'r aelodau yn cael eu helpu ac yn helpu eraill gyda chynghorion a chefnogaeth. Mae diffyg llwyddiant yn golygu'r gwrthwyneb i'r ffactorau hyn: gweithgareddau stoc, aelodau sydd wedi diflasu ac nad ydynt yn mynychu'n gyson, cefnogaeth wan oddi wrth oedolion, diffyg cysylltiad gyda'r gymuned leol. *(5.10)*

Yn ein barn ni, dylid cryfhau cyfranogiad ar bob lefel, ond nid trwy weithredu ar unrhyw batrwm sylfaenol. Trwy hyn rydym yn golygu:

**(1)** ni ddylai cyfranogiad ar un lefel olygu rheidrwydd i gyfranogi ar lefel arall.

**(2)** boed ar lefel clwb neu ar lefel uned, dylai'r aelodau fod â chyfran uchel o reolaeth dros y rhaglen a'i chyfleusterau.

**(3)** ar lefel y cyngor ieuenctid lleol, mae'n angenrheidiol cael strwythurau effeithiol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth eang ac i ganiatáu i gynulliad go fawr weithredu o gwbl.

**(4)** mae'n angenrheidiol bod penderfyniadau a syniadau'r bobl ifanc yn cael eu dilyn ar lefel clwb a chyngor ieuenctid. Os oes unrhyw oedi neu drafferthion, dylid rhoi rhesymau dros hyn, a dylid rhaeadru gwybodaeth yn ôl.

**(5)** dylid darparu ysgogiad cryf i grwpiau ieuenctid lleol trwy gyfarfodydd gyda grwpiau tebyg eraill o wahanol rannau o'r wlad neu gred.

**(6)** mae'r uchod oll yn ddibynnol ar ymrwymiad cywir, arddull a sgiliau'r gweithwyr ieuenctid i annog cyfranogiad.

**(7)** dylid rhoi mwy o bwyslais ar yr holl syniad o gyfranogiad mewn rhaglenni hyfforddiant cychwynnol a dilynol, er mwyn paratoi gweithwyr ar gyfer eu rôl.

Dylid rhoi lle pendant i wybodaeth, cyngor a chwnsela o fewn cynllunio'r ddarpariaeth ieuenctid yn lleol. Dylid cymryd nifer o bethau i ystyriaeth, megis ystod oedran y bobl ifanc y mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer, y math o ddarpariaeth a ragwelwyd, y nifer a'r math o staff a fydd eu hangen, a'r lleoliad lle bydd y ddarpariaeth yn cael ei gynnig. Dylai'r rheolwyr lleol a chenedlaethol fod yn anelu at sicrhau bod yr amrywiol fudiadau sydd ynghlwm â hyn yn gallu cydweithio mewn modd cydgysylltiedig a chydweithredol. Ni ddylid gadael i'r bobl ifanc orfod dod o hyd i'w ffordd drwy gymysgwch o wahanol ffynonellau cymorth a chyngor. Yn bwysicaf oll, ymddengys yn hollbwysig bod cyllid y gweithredoedd hyn yn cael ei osod ar sail fwy cyson a systematig.

## Her ac Ymateb

### *Herio ymddieithrio*

Mae rhai enghreifftiau o ymddieithrio gan bobl ifanc yn eu harwain at wrthdaro rhyngddynt â'r hyn a ystyrir yn ymddygiad cymdeithasol derbyniol, ac mae hyn yn arwain ymhellach at ymyrraeth gan asiantaethau eraill ar wahân i fudiadau pobl ifanc, megis Triniaeth Ganolradd a'r Heddlu. Teimla pobl ifanc yn aml fod asiantaethau o'r fath yn gweithredu ar ran oedolion, ac nid er lles pobl ifanc. Nid yw pobl ifanc fel arfer yn ystyried y Gwasanaeth Ieuenctid i fod yn asiantaeth sydd yn ymddwyn fel hyn. Mae ganddo gyfrifoldeb i berthnasu gyda'r bobl ifanc hyn, ble bynnag y maent a faint bynnag ohonynt sydd yno, er mwyn arbed sefyllfaoedd o argyfwng gymaint â phosib, ac i ddarparu cefnogaeth a chymorth pan fo ymddieithrio yn digwydd. *(6.3)*

Mae gweithwyr ieuenctid yn gyfarwydd â'r pwysau sydd ar bobl ifanc, ac â phroblemau cydredol digartrefedd, caethiwed i gyffuriau a thramgwyddaeth. Mae llawer o waith gwych ac effeithiol iawn wedi cael ei wneud gan unigolion dawnus, ond mae cyfraniad y Gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi cael ei rwystro gan bedwar ffactor:
(1) ansicrwydd ac anghysondebau cyllido;
(2) prinder personél;
(3) polisïau cymysg, yn enwedig yn yr hyn a ystyrir i fod yn berthynas gywir rhwng gweithgareddau argyfwng a chyffredin; a
(4) pherthynas anesmwyth sydd heb gael ei diffinio yn gywir gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill.

Mae'n glir bod y berthynas rhwng llawer o bobl ifanc a'r heddlu yn anodd, a hynny am nifer o resymau; mae hyn yn peri pryder mawr i ni. Does dim amheuaeth bod gwraidd hyn wedi cael ei seilio yn yr agweddau a geir ar y ddwy ochr. Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid y cyfle, a'r cyfrifoldeb, i weithio er mwyn gwella'r berthynas hon, gan geisio cael mwy o ddealltwriaeth, parch a goddefgarwch rhwng y naill a'r llall; ond eto mae'n debyg bod diffyg dealltwriaeth o rôl a dull gweithio yn rhwystro hyn rhag digwydd yn iawn. Dylid derbyn bod gweithwyr ieuenctid yn gallu bod yn ffrindiau neu yn eiriolwyr i bobl ifanc wrth iddynt ddelio gyda'r heddlu. Byddai o gymorth mawr petai canllawiau yn cael eu rhoi mewn lle er mwyn cynorthwyo'r gweithiwr ieuenctid pan fo galw arno i fod yn y sefyllfa broffesiynol yma; a dylid cynnig cyrsiau hyfforddiant cychwynnol ynghyd â chyrsiau hyfforddiant mewn swydd iddynt. Byddai'r Gwasanaeth Ieuenctid felly mewn sefyllfa i gyfrannu tuag at hyfforddiant yr Heddlu, ac i ddarparu cyngor ar ddulliau ac arferion yr Heddlu sy'n effeithio ar bobl ifanc. Nid yw'n ddigon i weithwyr ieuenctid greu perthnasau unigol gyda Swyddogion yr Heddlu; mae angen perthynas agosach rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Heddlu, a hynny ar lefel reolaeth. *(6.8)*

Nid yw'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ymwneud lawer â 'gwyliadwriaeth' neu 'rheolaeth', ond gall gyfrannu at waith gyda phobl ifanc sydd mewn perygl neu mewn trafferth yn y ffyrdd canlynol:
(1) trwy ddarparu llefydd lle y gall y bobl ifanc yma ddod i gysylltiad gyda gweithgareddau mewn awyrgylch anffurfiol;
(2) trwy gynnig cwnsela preifat i bobl ifanc, a chynnig ymyrryd ar eu rhan weithiau;
(3) trwy ddarparu perthnasau adeiladol gydag oedolion a phobl ifanc eraill;
(4) trwy gynnig ffyrdd gwahanol i bobl ifanc sydd wedi cael eu dieithrio i ddweud eu barn, a'u galluogi i gymryd rhan ymarferol yn y broses o newid eu cyflwr;
(5) trwy gynrychioli anghenion a diddordebau pobl ifanc i wasanaethau eraill, a thrafod trefniadau cyfeirio addas. *(6.9)*

### *Her cyflogaeth a diweithdra*

Mae'r argymhellion yr ydym wedi eu derbyn oddi wrth Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff gwirfoddol oll yn tystio bod y sefyllfa lle bydd y mwyafrif o bobl ifanc yn gadael yr ysgol heb unrhyw swydd i fynd iddi yn mynd i gyrraedd yn gyflym, os nad yw wedi cyrraedd yn barod. Dyma beth sydd yn pigo ar feddyliau pobl ifanc fwyaf. *(6.12; 6.13)*

Mae'r profiadau helaeth a gafwyd dros y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol mewn colegau addysg bellach sydd yn gweithio ar gynlluniau Paratoadau Galwedigaethol Unedig, yn rhannol gan yr MSC ei hun trwy'r Rhaglen Cyfleoedd i'r Ifanc, ond hefyd trwy'r gwaith gyda phobl ifanc ddi-waith a wnaed gan asiantaethau Gwasanaethau Ieuenctid, wedi dangos bod cydweithio galwedigaethol llwyddiannus yn dibynnu'r un faint ar y "broses" o ddysgu ag y gwna ar y cynnwys. Mae dysgu arbrofol ac a

ganolwyd ar y myfyriwr, ac yn enwedig dulliau cyfranogol sydd yn ceisio ysgogi drwy'r hyn y tybir ei fod yn berthnasol, yn cael eu cydnabod fel agweddau dymunol ar gyfer pobl ifanc, ac yn sicr yn hanfodol ar gyfer y rheiny sydd â llai o gymwysterau ac nad ydynt wedi cael eu hysgogi gymaint. *(6.15)*

**Mae'n ymddangos o'r pwysigrwydd mwyaf i ni, bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn cyfrannu'n llawn i gynllunio, gweithredu a rheoli'r Cynllun Hyfforddi Ieuenctid newydd.** Gwelir isod grynodeb bras o'r hyn y gall y Gwasanaeth Ieuenctid ei gynnig.
(1) Hyfforddi a Datblygu Staff.
(2) Datblygu'r Cwricwlwm.
(3) Gweithwyr Profiadol wedi cael eu Hyfforddi.
(4) Canolfannau Preswyl a Chanolfannau Gweithgareddau Awyr Agored.
(5) Nawdd: gall asiantaethau statudol a gwirfoddol fod yn noddwyr neu'n asiantaethau rheoli pwysig mewn cynlluniau, yn enwedig prosiectau cymunedol a gweithdai hyfforddi, ac mae llawer yn gwneud hynny eisoes.
(6) Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid y rôl bwysig o siarad fel eiriolwr i bobl ifanc, a chynorthwyo cynrychiolwyr yr hyfforddeion i ddweud eu barn, a hyn oll trwy gynllunio a rheoli'r Cynllun Hyfforddi Ieuenctid, ac wrth wneud cyfraniad penodol i'r ffordd y mae'n cael ei weithredu. *(6.16)*

Bydd y galw a'r angen am ddarpariaeth fel sydd yn cael ei gynnig gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i'r bobl ifanc sydd yn derbyn hyfforddiant gyda'r Cynllun Hyfforddi Ieuenctid, a hyd yn oed yn fwy i'r rheiny sydd wedi methu dod o hyd i gynlluniau hyfforddi addas neu sydd yn dal i fod yn ddi-waith ar ôl dilyn cynllun gyda'r Cynllun Hyfforddi Ieuenctid. Yn gyffredinol, mae'n debyg ei bod hi'n anochel y bydd yn rhaid i'r Gwasanaeth Ieuenctid ddatblygu ffyrdd newydd o ddelio gyda'r canlyniadau ofnadwy ar unigolion sydd yn ddi-waith neu sydd mewn gwaith heb ddyfodol iddo. Mae llawer o glybiau ieuenctid ar agor am gyfnodau yn ystod y dydd erbyn hyn, a bydd yn rhaid i fwy ohonynt ddechrau gwneud hynny hefyd. Mae angen i fwy o ganolfannau, ynghyd â gwaith prosiect-seiliedig, ymdopi gyda'r rheiny sydd yn swyddogol yn ddi-waith, yn ogystal â'r rheiny sydd heb ddatgan eu bod yn ddi-waith – y rheiny sydd wedi digalonni gormod i hyd yn oed droedio i mewn i Ganolfan Waith. Mae rhai datblygiadau yn cael eu gwneud mewn darpariaeth aml-asiantaeth gydlynol, lle mae nifer o fudiadau gwahanol sydd yn darparu ar gyfer gwahanol anghenion pobl ifanc, yn cydweithio er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr a all gofleidio agweddau megis cartrefi, cyflogaeth neu addysg sylfaenol yn ogystal ag addysg gymdeithasol er enghraifft.

### *Her newidiadau addysgol*

Tra bod datblygiad personol wedi bod yn amlwg yn rhan bwysig o raglen oblygeidig ysgolion o leiaf yn y gorffennol, mae'r modd neilltuol a'r brys newydd a berthyn iddo gyda'r cwsmeriaid newydd dros 16 oed yn rhyfeddod arbennig sydd yn denu ymatebion newydd yn y maes datblygu cwricwlwm. *(6.24)*

Efallai bod pobl ifanc mewn ysgolion, addysg bellach neu ar y Cynlluniau Hyfforddi Ieuenctid eisoes ynghlwm â darpariaethau sydd, er yn wahanol, â nifer o elfennau yn gyffredin. Mewn rhai ardaloedd, mae'r cydgyfeiriant hyn o nodau a dulliau sydd rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid ag ysgolion wedi derbyn cydnabyddiaeth benodol trwy'r ddwy rôl a berthyn i bobl ifanc fel gweithiwr ieuenctid ac fel aelod o staff mewn ysgol. Ceir dadleuon o blaid ac yn erbyn trefniadau o'r fath. **Mae'n gwneud synnwyr i weithwyr ieuenctid fod yn rhan o gynllunio cwricwlwm a rhaglenni mewn ysgolion,** ac mae'n gwneud synnwyr bod modd i'r Gwasanaeth Ieuenctid gael mynediad i

gyfleusterau'r ysgolion hefyd. Mae'r angen cynyddol i weithwyr ieuenctid gyfrannu tuag at ffurfio cwricwlwm a rhaglenni ysgolion, ac i'r gwrthwyneb hefyd, yn sylfaenol i'r holl drefniadau ffurfiol, ac yn mynd gam ymhellach na nhw hefyd. Gobeithio na fydd Awdurdodau Addysg Lleol yn gweld y cydgyfeiriant hwn o nodau a dulliau fel cyfle i gymhlethu'r ddau wasanaeth. *(6.25; 6.26)*

***Her anghenion cymunedol arbennig***

Bydd gan bob amgylchedd neu ardal leol eu cymeriad penodol a'u problemau cysylltiedig eu hunain, ac rydym wedi sylwi mai un o gryfderau arbennig y Gwasanaeth Ieuenctid yw ei allu i ymateb i'r rhain. Mewn rhai ardaloedd, mae'r cyfuniad o anawsterau penodol yn gallu creu sefyllfa arbennig iawn. *(6.27)*

**Canol dinasoedd.** Tra bod yr ystod eang o ddarpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn berthnasol i ardaloedd canol dinas fel mewn ardaloedd eraill, ac yn wir mae gan rai mudiadau draddodiad cryf o'r math yma o waith, mae rhai o ymatebion penodol y Gwasanaeth Ieuenctid o berthnasedd arbennig:
**(1)** y modd maent yn cynnwys gwaith gyda phobl ifanc o fewn datblygiad cymuned sydd yn ymateb i anghenion y gymdogaeth;
**(2)** y ddarpariaeth o waith prosiect-seiliedig;
**(3)** yr arweinyddiaeth sydd yn adnabod, hyfforddi ac yn cefnogi, a hyn oll o fewn y gymuned leol.

**Mae hyn i gyd yn pwysleisio'r angen arbennig am reolaeth gydweithredol yng nghanol dinasoedd.** Ceir anrhefn ar hyn o bryd o ganlyniad i'r amrywiaeth o ddarpariaethau a llunio polisïau sydd ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. *(6.28; 6.29)*

**Ardaloedd gwledig.** Mae problemau ymhlith y ddarpariaeth i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig hefyd, ac mae'r rhain yn cael eu gwaethygu gan y gydnabyddiaeth bitw a wneir o'r ffaith yma o fewn cyllido cyffredinol a phenodol. O ganlyniad i anawsterau i gael niferoedd dichonadwy, ceir prisiau uned uwch. Ond serch hyn, mae'r agweddau pwysig sydd yn pennu dosbarthiad grantiau ac yn cael eu rhoi am anghenion addysgiadol arbennig, yn tueddu i ogwyddo'r cyllid tuag at ardaloedd trefol. Er bod y ddarpariaeth y pen yn fwy costus mewn ardaloedd gwledig, mae llai o arian y pen yn cael ei wario, sydd yn achosi gwahaniaeth mawr yn y ddarpariaeth o'u cymharu ag ardaloedd trefol. *(6.30; 6.32)*

Yr anhawster mwyaf y mae'r rheiny mewn ardaloedd gwledig yn ei wynebu yw bod eu niferoedd yn fach, nad oes neb yn sylwi ar eu hanawsterau, ac nad oes adnoddau yn cael eu darparu ar eu cyfer. **Er mwyn cael ateb i hyn, mae angen cryn dipyn o adnoddau, ynghyd â dulliau gweithio, cefnogi a darparu addas.** (6.34)

***Her cymdeithas amlddiwylliannol***

Mae pobl ifanc o gymunedau ethnig, ac yn fwy penodol o gymunedau du, yn dod ar draws problemau y tu hwnt i'r cyffredin sydd wedi dod ar eu traws heb unrhyw ysgogiad ar eu rhan. Mae un ffactor arbennig sydd yn rhan o'r profiad cyffredinol ymhlith yr holl grwpiau ethnig yn y wlad hon, a'r profiad o wahaniaethu a rhagfarn hiliol yw honno, boed yn cael ei wneud mewn ffordd agored, yn gudd neu ran amlaf mewn ffyrdd sy'n ddiarwybod i'r unigolion. Mae'n rhaid i unrhyw wasanaeth sydd a wnelo â datblygiad personol pobl ifanc beidio ag anwybyddu'r ffactor hwn. *(6.35)*

Yn ein barn ni, mae tair prif ffordd y gall y Gwasanaeth Ieuenctid gael dylanwad.

Yn gyntaf, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth gofleidio'r cysyniad o amrywiaeth diwylliannol fel cynnydd positif o fewn

unrhyw gymdeithas. Efallai mai'r Gwasanaeth Ieuenctid yw un o'r asiantaethau prin sydd â'r gallu a'r ewyllys i weithredu ar elfennau ymhlith pobl ifanc wyn sydd yn agored i niwed gan fudiadau hiliol. Mae lle i weld mwy o ymdrechion o waith estyn allan mewn amrywiol ffyrdd, a hynny trwy weithwyr datgysylltiedig a chanolfannau cynghori. *(6.39)*

Yn ail, **mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid gyfle i wneud i'r cyhoedd sylweddoli realiti hiliaeth, a'r ffyrdd y gellir ei daclo.** Efallai mai'r bobl ifanc eu hunain yw'r rhai gorau i greu cymdeithas sydd yn fwy cyfartal a diragfarn. *(6.40)*

Yn olaf, mae angen i'r Gwasanaeth Ieuenctid fabwysiadu arferion rheoli sydd yn addas ar gyfer y nodau hyn. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, cydweithio yn llawn gyda chymunedau du yn ystod y broses o lunio polisïau ac adolygu, wrth ddatblygu'r cwricwlwm ac o fewn strwythurau rheoli ar bob lefel cyn belled â'r lefel uned; sicrhau bod cynrychiolaeth o'r gymuned ddu mewn cyfarfodydd a chynadleddau; mabwysiadu polisïau recriwtio a fyddai'n sicrhau presenoldeb amlwg o weithwyr du o fewn y Gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, hynny yw, nid mewn ardaloedd du yn unig, nac yn haenau isaf y Gwasanaeth; ac yn bwysicaf oll mynnu bod pob cwrs hyfforddi cychwynnol mewn swydd ag agwedd amlddiwylliannol yn perthyn iddo, a fyddai'n cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth hiliaeth ar gyfer pob hyfforddai gwyn ac yn y trefniadau ar gyfer goruchwylio staff. *(6.41)*

Mae'n hanfodol bod darpariaeth ieuenctid yn cychwyn gydag anghenion amlwg y gymuned. Efallai y bydd canolfannau ar gyfer chwaraeon, celfyddyd neu weithgareddau eraill yn fwy poblogaidd na darpariaeth clwb. Efallai bydd yn rhaid rhoi proffil uwch i'r darpariaethau sydd fwyaf arbrofol, yn cynnwys yr holl waith amrywiol sydd yn brosiect-seiliedig. Ond, lle dymunir derbyn darpariaeth clwb, nid ddylai beri pryder os yw'r aelodaeth mewn ffaith yn digwydd bod yn wyn i gyd neu yn ddu i gyd. Beth sydd bwysicaf yw bod holl anghenion pobl ifanc o fewn eu cymunedau yn cael eu cyrraedd, yn hytrach na'n bod yn anelu at bolisi integreiddio damcaniaethol. *(6.45)*

Mae gan hyfforddiant ar gyfer gwaith ieuenctid ran bwysig iawn i sicrhau bod yr agweddau cywir yn cael eu mabwysiadu. Mae'r nifer o weithwyr o leiafrifoedd ethnig yn parhau i fod yn isel o'u cymharu â'r galw, a dylid rhoi mwy o bwyslais ar recriwtio mwy o bobl o leiafrifoedd ethnig ar gyrsiau hyfforddiant. Mae'n angenrheidiol bod pob ymgeisydd, beth bynnag bo'u cefndir, wedi derbyn hyfforddiant sy'n pwysleisio natur y gymdeithas aml-hil sydd mor nodweddiadol o'r wlad hon erbyn hyn, ynghyd â'i oblygiadau ar eu cyfer nhw eu hunain a phobl ifanc. Mae angen cyrsiau hyfforddiant mewn swydd hefyd. *(6.49)*

***Creu cyfleoedd cyfartal ar gyfer merched a menywod***

Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn hynod o agored i feirniadaeth os bydd yn gwneud cam â menywod ifanc yn ystod y cyfnod sydd yn mynd i greu'r argraff fwyaf arnynt yn eu bywydau. Mae bodolaeth y mudiad 'gweithio gyda merched' yn tystio bod pryder cynyddol bod y Gwasanaeth yn gwneud yn union hynny, nid yn fwriadol yn benodol, ond oherwydd ei fod yn adlewyrchu, heb fod yn feirniadol, yr agweddau rhywiaethol sydd yn bodoli mewn cymdeithas. **Mae'n bwysig bod y Gwasanaeth yn cymryd camau bwriadol i unioni'r sefyllfa hon.** *(6.52)*

Nid ydym yn credu y dylid gwahanu darpariaeth prif ffrwd. Nid yw merched fel arfer yn dymuno gwneud pethau gwahanol i fechgyn, ac nid oes angen cwricwlwm gwahanol arnynt chwaith. Yn hytrach, beth sydd ei angen arnynt yw'r cyfle i gyfranogi mewn modd cyfartal

mewn ystod o weithgareddau o'r un fath. Nod hirdymor y Gwasanaeth Ieuenctid, fel i gymdeithas yn gyffredinol, yw sicrhau bod gan ferched yr un ystod o gyfleoedd ag sydd ar gael i fechgyn; a dylai hyn fod yn digwydd mewn sefyllfa gymysg hefyd. **Serch hynny, efallai y bydd yn rhaid rhagweld cynnydd mewn darpariaeth ar wahân i ferched am y tro, a hynny o fewn sefyllfa gymysg clwb neu fudiad,** fel y caiff ei annog yn aml gan y rheiny sydd yn gweithio gyda merched. Efallai y bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn adeiladu a chynnal hyder cymdeithasol, er mwyn osgoi'r gwaharddiad a'r digalondid a allai ddod o ganlyniad i fwy o weithgareddau ar gyfer bechgyn, ac i ddarparu gofod ac amser i ddatblygu gweithgareddau newydd os oes eu hangen. Yr hyn sydd gennym mewn golwg felly, yw cynnydd yn y broses o neilltuo llefydd ac amser o fewn mudiad lle y gall merched gwrdd heb fod bechgyn yno hefyd, er mwyn trafod neu yn syml i fwynhau gweithgareddau ar eu pen eu hunain, er enghraifft, trwy ddarparu nosweithiau merched, gwibdeithiau merched neu benwythnosau merched. Er mwyn i'r ddarpariaeth yma fod yn llwyddiannus ac yn ffynhonnell ddysgu arbrofol ar gyfer bechgyn a merched, a gweithwyr benywaidd a gwrywaidd, mae'n bwysig bod y gweithwyr a phobl ifanc hefyd yn astudio a deall y cyfiawnhad ar gyfer darparu ar wahân i fechgyn a merched, ynghyd a'r goblygiadau o fechgyn a dynion yn herio'r ystrydebau benywaidd a gwrwyaidd. *(6.53)*

Yn yr hirdymor, rydym yn rhagweld y bydd cynnydd mewn cyfleoedd cyfartal trwy gyfrwng y camau canlynol:

**i Cwricwlwm:** dylai cwricwlwm y Gwasanaeth Ieuenctid fod wedi ymrwymo i gael gwared ag agweddau rhywiaethol.
**ii Gwaith Prosiect-Seiliedig:** mae llawer o'r gwaith diweddar a wnaed gyda merched yn waith ar wahân. Mae hyn yn rhoi rheswm arall dros ehangu'r math yma o ddarpariaeth.
**iii Hyfforddiant:** rydym ni o'r farn bod angen ail-asesu cyrsiau a chwricwlwm, gyda'r nod o hyrwyddo mwy o sensitifrwydd dros anghenion merched yn gyffredinol.
**iv Staffio a Rheolaeth:** un o'r anghenion pwysicaf yw cywiro'r anghydbwysedd presennol sydd rhwng dynion a menywod o fewn y garfan o weithwyr a swyddogion llawn amser. Mae angen i'r Gwasanaeth gael ei weld i fod wedi ymrwymo i statws a chyfleoedd cyfartal.
**v Adnoddau:** mae llawer o Awdurdodau Addysg Lleol wedi gweld bod angen am wariant bychan ychwanegol, er enghraifft ar staffio, rhaglenni hyfforddiant, costau cynadleddau a deunyddiau gwybodaeth. Mae hyn yn ymddangos yn angenrheidiol i ni hefyd. *(5.54)*

### *Gweithio gyda phobl o dan anfantais*

Mae rhwystr neu anfantais yn cael ei greu gan sefyllfaoedd - gan effaith yr anabledd ei hun ar yr unigolyn, ond hefyd gan yr amgylchedd y mae'r unigolyn hwnnw yn gweithio ynddo a gydag agwedd y bobl sydd o'i gwmpas ef neu ei chwmpas hi. Mae integreiddio yn gobeithio ateb anghenion sylfaenol y person sydd o dan anfantais ynghyd â'r anghenion sydd yn cael eu teimlo gan bawb - perthynas a derbyniad gyda'r grŵp cyfoedion, y gallu i gyfrannu i weithgareddau, grwpiau a'r gymuned. Ymddengys i ni **y dylai cyrff sy'n darparu mewn ardal wneud hynny mewn sawl dull gwahanol, yn cynnwys darpariaethau integredig ac ar wahân, er mwyn sicrhau integreiddio mewn unrhyw ffordd ystyrlon.** *(6.56)*

Mewn egwyddor, byddai rhywun yn disgwyl dod ar draws yr un elfennau ag yr ydym wedi eu hadnabod mewn darpariaeth ieuenctid yn gyffredinol. Mae sylwedyddion gwybodus yn pwysleisio'r angen am gwnsela a chynghori; ac un nodwedd amlwg sawl darpariaeth lwyddiannus ar gyfer pobl ifanc o dan

anfantais yw'r raddfa y mae'n cynnwys gweithredu cymunedol. Mae hwn yn faes lle mae gan y person sydd o dan anfantais yr un faint i'w gynnig â'r unigolyn nad yw o dan anfantais. *(6.57)*

Angen parhaol sydd o bwysigrwydd gor-redol yw'r angen am hyfforddiant ymwybyddiaeth a pharatoi ar bob lefel. Mae hyn fel arfer yn golygu clustnodi cyfrifoldeb penodol i swyddogion enwebedig dros yr agweddau hyn. *(6.58)*

**Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer yr 1980au**

Mae anghenion a blaenoriaethau lleol yn amrywio'n fawr, ac mae'n rhaid iddynt gael eu pennu yn lleol. Ond ymddengys i ni ei bod yr un mor hanfodol adnabod yr elfennau y tybiwn eu bod yn bwysig, a hynny ar raddfeydd gwahanol mewn ardaloedd gwahanol, os yw'r ddarpariaeth yn mynd i fod yn un gyflawn a digonol. *(7.1)*

***Amcanion***

Rydym bron yn unfrydol mai pwrpas sylfaenol y Gwasanaeth Ieuenctid yw darparu rhaglen o ddatblygiad personol sydd yn cynnwys, yn syml, addysg gymdeithasol a gwleidyddol. **Dau brif nod y broses hon felly yw cadarnhad ac ymglymiad –** sy'n cadarnhau hunaniaeth yr unigolyn ei hunan, ac yn ymglymu'r unigolyn mewn perthnasau gydag unigolion a mudiadau eraill. *(7.3)*

Yn anad dim, mae'n rhaid i'r broses o addysg gymdeithasol fod yn un gyfranogol. Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Ieuenctid gymryd cyfrifoldeb dros greu cyfleoedd i bobl ifanc fedru dweud eu dweud am eu materion nhw, ac i drefnu eu gweithgareddau eu hunain. *(7.4)*

Yn dilyn hyn, mae gan yr hyn rydym wedi ei ddisgrifio fel addysg wleidyddol le hanfodol o fewn cwricwlwm y Gwasanaeth Ieuenctid. Yn syml, mae'n rhaid iddo olygu'r broses lle mae unigolyn ifanc yn dysgu sut i fynnu hawl aelod o gymdeithas ddemocrataidd er mwyn dylanwadu ar y gymdeithas honno a chael lleisio'i farn am sut y mae'n effeithio arno ef neu arni hi. *(7.5)*

Agwedd arall na ddylwn ei diystyru yw'r hyn yr ydym yn ei alw yn ddatblygiad ysbrydol. Yn ein cymuned amlddiwylliannol, aml-grefydd ac aml-ethnig gynyddol, **mae'n rhaid i swyddogaeth y Gwasanaeth Ieuenctid gynnwys y cyfle i alluogi pobl ifanc i greu a datblygu eu credoau eu hunain.** *(7.6)*

***Pethau i'w Cynnig***

Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid lawer o bethau i'w cynnig i bobl ifanc, ac **mae'n rhaid iddo barhau i gynnig yr amrywiaeth hon,** wedi ei chymysgu mewn ffyrdd a maint gwahanol er mwyn ateb anghenion y gwahanol gymunedau a'r ystod oedran:

**Cymdeithas:** Yr hyn rydym yn ei olygu, fel yr oedd Albemarle yn ei olygu hefyd, yw lle i fynd, lle i gwrdd, lle i fod gyda ffrindiau, lle i fod yn lloches ar wahân i gartref, lle i gymdeithasu ac i fwynhau. Mae'n sail sylfaenol.

**Gweithgareddau:** Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Ieuenctid gynnig pethau diddorol i bobl ifanc eu gwneud, pethau newydd i brofi eu dewrder a'u hyblygrwydd, cyfleoedd i gael profiadau newydd, pethau i ymarfer y corff a'r meddwl.

**Cyngor:** Rydym yn defnyddio'r term yma yn ei ystyr ehangaf er mwyn hyrwyddo'r holl broses o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chwnsela personol. O ganlyniad, mae'n rhaid iddo fod yn un o'r pethau amlycaf am y ddarpariaeth ieuenctid.

**Gweithredu yn y Gymuned:** Rydym yn rhagweld y bydd gweithredu cymunedol yn cael ei gynnal mewn amrywiol ffyrdd o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid.

**Mynediad i Sgiliau Bywyd a Galwedigaethol:** Ymddengys i ni fod gan

y Gwasanaeth Ieuenctid rôl bwysig ymhlith pob menter a grëwyd i ganoli'r trawsnewid o addysg amser llawn i fywyd fel oedolyn. Rydym o'r farn y dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid gymryd rhan flaenllaw yn y cam tuag at system gynhwysfawr o hyfforddiant a phrofiad galwedigaethol ar gyfer y rheiny sydd yn gyflogedig ynghyd â'r di-waith hefyd. *(7.7 - 7.12)*

Gall y pum dull gweithredu hwn ddigwydd mewn sefyllfa prosiect-seiliedig yn ogystal â mewn clybiau, canolfannau ac unedau unffurf. Mater i'w werthuso a'i benderfynu yn lleol yw sut y bydd y pum modd hyn yn cael eu gweithredu er mwyn creu polisi ieuenctid cynhwysfawr mewn unrhyw ardal, er bod lle i symbyliad, goruchwyliaeth a monitro cenedlaethol hefyd yn ein barn ni. *(7.13)*

### *Ystod oedran*

Ceir amrywiaeth barn ynglŷn â'r flaenoriaeth i'w rhoi i un o bedwar band eang, hynny yw 7 – 10 oed, 11 – 14 oed, 15 – 19 oed a 20 – 25 oed. Mae angen i bob un grŵp oedran gael ei ddarpariaeth wahanol a phenodol ei hunan. Credwn **y dylai Awdurdodau Addysg Lleol barhau i gael y pŵer i ddarparu, neu gynorthwyo eraill i ddarparu, ar gyfer y grŵp oedran yn ei gyfanrwydd heb fanylu ar unrhyw derfynau. Ond credwn ei fod yn ddigon rhesymol i ddiffinio'r ystod oedran mor eang â rhwng yr 11eg pen-blwydd tan yr 21ain pen-blwydd ar gyfer unrhyw ddyletswyddau statudol.** *(7.17; 7.18)*

### Strwythurau

Mae'r pedair swyddogaeth sylfaenol o osod amcanion, neilltuo swyddogaethau, clustnodi adnoddau a monitro perfformiad yn gofyn am strwythurau addas er mwyn eu cyflawni ar lefel genedlaethol a lleol. *(8.2)*

**Dylid penodi Gweinidog, sydd wedi ei leoli yn Adran Addysg y Llywodraeth, i gydgysylltu gwaith pob adran sydd â diddordeb mewn gweithgareddau ieuenctid. Dylid hefyd penodi cyngor ymgynghorol er mwyn cynghori gweinidogion ar weithgareddau ieuenctid.** Dylai gynnwys nifer fechan o unigolion sydd wedi cael eu penodi ar sail bersonol a heb fod yn cynrychioli unrhyw un, gan adlewyrchu ystod eang o ddiddordebau ieuenctid. Dylai fod yn cael ei wasanaethu gan yr Adran Addysg, ond dylai fod ganddo hunaniaeth gyhoeddus arbennig hefyd. *(8.4; 8.10)*

Dylid adolygu cylch gorchwyl a strwythur cyfundrefnol y Biwro Ieuenctid Cenedlaethol er mwyn ei alluogi i weithredu tasgau casglu a dadansoddi data am weithgarwch ieuenctid a lledaenu gwybodaeth am arferion da ac arloesol yn fwy effeithiol. *(8.17)*

**Dylid cydnabod yr Awdurdod Addysg Lleol fel y prif ffocws ar gyfer gweithgarwch ieuenctid ar lefel leol, a dylid rhoi cyfrifoldeb statudol iddo dros gydlynu gwasanaethau'r awdurdod lleol ei hunan, ar wahanol haenau'r llywodraeth leol, a rhwng gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol.** *(8.21; 8.22)*

Mae'r rôl integredig hon yn bell o fod yn hawdd, gan fod iddi gymaint o ddimensiynau gwahanol, er enghraifft ... rhwng gweithgareddau'r awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd, a'r holl ystod o ddiddordebau allanol (sydd yn cynnwys llawer sydd yn cyffwrdd â bywydau pobl ifanc) megis y cyfryngau, y byd geithgareddau amser hamdden masnachol, y byd cyflogaeth a hyfforddiant, y peirianwaith cyfraith a threfn, ayb. *(8.22)*

**Dylid rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Addysg Lleol i greu peirianwaith i sicrhau cyfathrebu ac ymgynghori cyson ac effeithiol gyda**

**mudiadau ieuenctid gwirfoddol, a hynny dros faes y pedwar dull rheoli yn eu cyfanrwydd.** *(8.29)*

**Dylai mudiadau ieuenctid gwirfoddol mewn unrhyw ardal gymryd camau er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu i weithredu ar y cyd er mwyn adnabod a llunio materion polisi, a chymryd rhan yn eu partneriaeth gyda'r Awdurdod Addysg Lleol.** Efallai y byddai consortiwm lleol, megis y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, yn addas ar gyfer hyn. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, byddai'n rhaid i gonsortiwm o'r fath gael cefnogaeth weinyddol ynghyd â staffio, a allai olygu apwyntiad penodol. Ni ddylid tybio bod swyddog o'r Awdurdod Addysg Lleol yn mynd i gymryd y swyddogaeth yma. *(8.32)*

Rydym yn ystyried rôl y cynghorau ieuenctid lleol, ynghyd â'r ymrwymiad effeithiol o bobl ifanc mewn strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn lleol fel agweddau pwysig iawn. **Dylid cael pwyllgor gan yr awdurdod lleol yng nghanol y strwythur hwn, a dylai'r awdurdod lleol fod yn dirprwyo swyddogaethau a phwerau penodol. Dylai'r pwyllgor hwn gynnwys cynrychiolaeth o fudiadau gwirfoddol a phobl ifanc, a dylent gydweithio gyda'r awdurdod lleol er mwyn fframio ac adolygu polisi, a monitro perfformiad.** *(8.34; 8.35)*

Dylai mudiadau a staff y Gwasanaeth Ieuenctid fod ynghlwm â threfniadau lleol er mwyn cynllunio a gweithredu'r Cynllun Hyfforddi Ieuenctid arfaethedig, fel aelodau o Fyrddau Ardal ynghyd ag asiantaethau rheoli a noddwyr. *(8.38; 8.39)*

**Staffio a Hyfforddi**

Mae'r tasgau y mae oedolion yn eu gwneud o fewn y Gwasanaeth yn cwmpasu sbectrwm eang:

(1) Gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc er mwyn darparu addysg gymdeithasol;
(2) Gwneud gwaith datblygu gyda chymunedau, cynorthwyo pobl ifanc ac oedolion o fewn y gymdogaeth i adnabod eu hanghenion ac i greu ffordd iddynt ymateb i'r anghenion hyn;
(3) Gweithio gyda staff eraill sydd yn oedolion, pobl sy'n gweithio amser llawn, yn rhan-amser, a gwirfoddolwyr o bob math gwahanol, yn cynnwys y rheiny sy'n gydweithwyr mewn tîm, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd, yn arwain ac yn cyfarwyddo, yn goruchwylio ac yn hyfforddi;
(4) Gwaith gweinyddol a chyllid, boed hynny yn ymwneud â gwaith ieuenctid yn gyffredinol o fewn ardal, neu gyda chanolfan neu brosiect penodol.

Y prif raniadau yn unig yw'r rhain; mae nifer o amrywiaethau ac arbenigeddau, ond mae'r pedwar math yma o waith yn codi pen yn y mwyafrif o swydd-ddisgrifiadau o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid. *(9.1)*

Er bod staff proffesiynol sydd wedi cael eu hyfforddi'n llawn yn hanfodol bwysig o fewn y sectorau statudol a gwirfoddol, mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid un o'r nodweddion mwyaf unigryw o fewn y gwasanaethau gofal, sef y defnydd helaeth a wna o staff rhan-amser a staff gwirfoddol, ac yn sicr y cyfleustra bod pobl yn gallu symud o'r gwaith gwirfoddol i'r gwaith rhan-amser ac i'r gwaith amser llawn hefyd. *(9.2)*

Mae un argraff gyffredinol sydd wedi deillio o'r hyn a welsom ac a glywsom am y gweithlu amrywiol a thrawiadol hwn. Rydym wedi dod i ddeall bod rhai'n teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio, yn enwedig ymhlith y rheiny sydd yn gweithio amser llawn. Maent yn teimlo nad ydynt yn cael eu hystyried o statws proffesiynol yn gymesur â'r cyfrifoldebau sydd ganddynt, neu â'u cydweithwyr y maent yn dod i gyswllt â nhw mewn gwasanaethau eraill.

Mae'n debyg bod y teimlad hwn yn tarddu o'r farn sydd ganddynt nad yw'r Gwasanaeth ei hun yn cael yr ystyriaeth haeddiannol ac nad oes iddo sail foddhaol. Nid yw'r llwybr i ennill cymwysterau mor glir ag y byddai rhai yn dymuno iddynt fod, ac mae'r strwythur gyrfa yn ansicr. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn brin o reolaeth dda: hynny yw, nid yw ei amcanion wedi cael eu diffinio yn ddigon da, naill ai yn genedlaethol neu yn lleol; nid yw'r swyddogaethau wedi cael eu penodi yn ddigon clir; mae'r adnoddau'n ansicr; ac nid oes unrhyw gyfarpar monitro mewn lle ar adegau. Yn bwysicaf oll, mae'r oruchwyliaeth o ran cefnogaeth broffesiynol, y dylid ei ystyried fel rhywbeth hanfodol mewn proffesiwn sydd yn hawlio adnoddau dynol mor llwyr ag y gwna'r proffesiwn hwn, heb gael ei ddatblygu yn agos i'r graddau y dylai fod wedi ei ddatblygu. *(9.6)*

### *Gweithwyr a swyddogion amser llawn*

Mae gweithwyr amser llawn y Gwasanaeth Ieuenctid yn llu proffesiynol; er mai nifer fechan ydynt, ni allai'r Gwasanaeth fodoli yn ei ffurf bresennol hebddynt. Mae yna deimlad bod gwaith gweinyddol canolog neu brosiect-seiliedig yn mynd â gormod o amser staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n arbennig i weithio gyda phobl; a bod yn rhaid ildio gwaith gyda phobl ifanc yn aml er mwyn gweithio gydag oedolion eraill. Serch hynny, mae'n rhaid i ni nodi nad oes un ffordd y gall y gweithiwr amser llawn ddianc rhag y cyfrifoldeb a amlinellwyd uchod - rhywbeth sydd yn rhaid ei gadw yn gadarn yng nghanol yr holl gynllunio a datblygu cwricwlwm ar gyfer hyfforddi cychwynnol a hyfforddi mewn swydd o hyn ymlaen. *(9.7)*

Mae trosiant y gweithwyr amser llawn hefyd yn codi'r cwestiwn a yw strwythur graddio swyddi'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu ysgogiad digonol i gadw pobl dda ynddo. Er mwyn iddynt hybu eu gyrfa ymhellach, dywedir bod yn rhaid i weithwyr ieuenctid symud i weithio o fewn rheoli canolog a dod yn swyddogion ieuenctid, gan dorri pob cysylltiad gyda'r union waith y cawsant eu hyfforddi ar ei gyfer ac y maent eisiau ei wneud fwyaf. Credwn y dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r math o swydd sydd yn cael ei alw yng nghylch cyfatebol y gwasanaethau cymdeithasol fel 'uwch ymarferwr'. Yr hyn rydym yn ei olygu yw gweithiwr ieuenctid uwch a mwy profiadol sydd yn parhau i ganolbwyntio ar y pedwar gorchwyl y soniwyd amdanynt yn gynharach, ond mewn modd ehangach, ac yn cyfuno hynny gyda rôl goruchwyliwr a chynghorydd proffesiynol mewn perthynas â staff eraill. *(9.10)*

Mae swyddogion y Gwasanaeth Ieuenctid yn tueddu i gyfuno swyddogaethau'r 'gweinyddwr a chynghorydd proffesiynol' neu 'drefnydd'. Mae hyn yn deillio'n rhannol o natur gymysg swyddogaeth y gweithiwr ieuenctid, ac yn rhannol o'r nifer fechan o swyddogion, sydd yn amrywio o tua 25 mewn rhai awdurdodau i dri neu bedwar mewn awdurdodau eraill. Er bod hyn yn gryfder mewn nifer o ffyrdd, mae hefyd yn dileu'r elfen o ddewis o fewn strwythur gyrfa, ac yn ei wneud yn fwy angenrheidiol i ddefnyddio awdurdodau i ystyried trywydd gyrfa eu staff amser llawn o ddifrif, ac i benodi pobl sydd heb dderbyn hyfforddiant a phrofiad yn y Gwasanaeth Ieuenctid mewn swyddi uchel. *(9.13)*

Bydd angen i'r sector gwirfoddol wneud mwy i ddatblygu swyddogaeth y swyddog (boed yn cael ei wneud gan staff sy'n cael ei dalu neu heb ei dalu) ac ni ddylent ddisgwyl i swyddogion o'r Awdurdod Addysg Lleol wneud eu tasgau gweinyddol; na disgwyl i'r Awdurdodau Addysg Lleol dybio bod eu swyddogion eu hunain yn gallu cyflawni anghenion gweinyddol y sector gwirfoddol. *(9.14)*

### *Staff rhan-amser*

Mae'n anodd bod yn siŵr am gyfanswm y nifer o staff rhan-amser, na'r math o waith mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei wneud. Ond beth sydd yn siŵr yw bod y ffiniau rhwng staff rhan-amser a gwirfoddolwyr yn denau iawn: yn wir mae'n ddigon cyffredin i staff rhan-amser weithio mwy o oriau ar sail wirfoddol nag y maent yn cael eu talu amdanynt, ac mae'r ffaith bod disgwyl iddynt wneud hynny mewn rhai ardaloedd yn peri pryder. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd rhoi bys ar gylch penodol y gweithiwr rhan-amser; mae ganddo fwy i wneud â chynnwys a sefyllfa na'r gweithgaredd o dan sylw. *(9.15)*

Mae'r cyfraniad gwerthfawr a wneir gan staff rhan-amser fel arfer yn ddyledus i'r ffaith eu bod yn cyfuno sgil penodol gyda chyswllt â'r gymuned leol. Gan fod gweithgareddau'r Gwasanaeth Ieuenctid y dibynnu mwy a mwy ar ddull gweithredu fel tîm, mae gwaith y gweithiwr rhan-amser yn dod yn gynyddol bwysig. Fel arfer, dylid ystyried bod yn rhaid derbyn hyfforddiant cychwynol a hyfforddiant mewn swydd addas ar gyfer gwaith rhan-amser. Yn fwy na dim, bydd angen goruchwyliaeth ar y gweithiwr rhan-amser, a hynny'n oruchwyliaeth rheolaeth a chefnogaeth bersonol broffesiynol; ac mae'n rhaid derbyn mai rhan o swyddogaeth y staff amser llawn yw gwneud hyn. *(9.16; 9.17)*

### *Gwirfoddolwyr*

Un o nodweddion mwyaf trawiadol y Gwasanaeth Ieuenctid yw'r ffaith mai grŵp staff mwyaf y Gwasanaeth o bell ffordd yw'r gwirfoddolwyr. Ond yn gyffredinol, rydym yn teimlo pryder o fewn yr Awdurdodau Addysg Lleol a'r mudiadau gwirfoddol bod amgylchiadau presennol yn ei gwneud yn gynyddol anodd cynnal yr ymdrechion gwirfoddol hyn. Mae diweithdra yn ffactor gwrthwynebus; mae nifer o fudiadau gwirfoddol yn credu ei fod yn rhwystro pobl rhag rhoi eu gwasanaeth yn wirfoddol. *(9.18)*

Nid yw gwirfoddolwyr yn ymddangos; mae'n rhaid mynd i chwilio amdanynt. Nid yw gwirfoddolwyr yn aros: mae'n rhaid gwneud ymdrech i'w cadw. Nid ydynt yn gwella gyda phrofiad: mae'n rhaid eu hyfforddi. Mae'n rhaid iddynt hefyd allu cwrdd â'r treuliau achlysurol sy'n dod yn sgîl bod yn wirfoddolwr, sydd yn gynyddol anodd i rai pobl. O ganlyniad, mae'n hanfodol bwysig bod gwirfoddolwyr yn derbyn statws y maent yn ei werthfawrogi, ac yn cael eu cyfarwyddo'n ofalus o fewn eu rôl. *(9.19; 9.20)*

**Mae delio gyda gweithlu gwirfoddol mawr, sydd yn un o gryfderau'r Gwasanaeth Ieuenctid, yn flaenoriaeth sydd yn gofyn am sgil hynod, a chryn dipyn o adnoddau o ran gweithlu** *(9.21)*

### *Hyfforddi ar gyfer gwaith ieuenctid*

Mae nifer o faterion o fewn y maes hyfforddi ar gyfer gwaith ieuenctid sydd yn gofyn am astudiaeth feirniadol a gwerthusiad.
(1) Cynnwys yr hyfforddiant a'i berthynas â'r gwaith ymarferol;
(2) Eglurhad o'r llwybr cymhwyso;
(3) Adolygiad o'r trefniadau prawf;
(4) Datblygu'r hyfforddiant mewn swydd (a'i berthynas gyda gwaith prawf);
(5) Hyfforddi ar gyfer rheoli a hyfforddi hyfforddeion;
(6) Rhoi ystyriaeth i'r galw am gymhwyster sy'n berthnasol i'r gwaith;
(7) Sefydlu corff sydd â'r swyddogaeth o oruchwylio er mwyn monitro a chydlynu hyfforddiant cychwynol a hyfforddiant mewn swydd, ac i reoli cofrestru proffesiynol;
(8) Cefnogaeth ariannol ar gyfer y rheiny sy'n cael eu hyfforddi;
(9) Hyfforddi staff gwirfoddol a rhan-amser. *(9.29)*

**Yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni am hyfforddiant, mae mwy o unfrydedd yn y galw am gorff cyfansoddiadol cenedlaethol i fonitro a**

**goruchwylio'r cyrsiau hyfforddi cychwynol nag am unrhyw agwedd arall.** Cyfrifoldeb sylfaenol corff o'r fath fyddai cynnal safonau proffesiynol, ac rydym yn gweld y byddai hyn yn cynnwys y tasgau canlynol:
(1) Asesu ac ardystio cyrsiau yn erbyn canllawiau a meini prawf cyhoeddedig;
(2) Gweithredu ar a pharhau â gwyliadwriaeth sy'n cynnwys adolygiadau cyson o gyrsiau achrededig;
(3) Rheoleiddio safonau mynediad ar gyfer y cyrsiau;
(4) Ymchwilio i'r angen am ddatblygiadau cwricwlwm newydd yng ngoleuni'r anghenion cyfnewidiol;
(5) Asesu'r cyrsiau penodol yn erbyn y meini prawf cytunedig yn achos cydnabyddiaeth unigol; ac
(6) Adolygu dosbarthiad a chyfanswm y cyfleusterau hyfforddi mewn perthynas â'r anghenion cyflogaeth. *(9.30)*

Ers i ni ddod i'r farn yma yn wreiddiol, rydym wedi sylwi bod datblygiadau yn cael eu gwneud a fydd yn mynd yn bell at gyrraedd yr anghenion hyn. Mae'r Adran Addysg wedi cymryd y cam cyntaf trwy wahodd y Panel Addysg a Hyfforddiant Mewn Swydd i baratoi cynigion ar gyfer ehangu ei swyddogaethau i gynnwys cefnogaeth broffesiynol i gyrsiau hyfforddi cychwynnol. Ymddengys i ni fod y datblygiad hwn ar y trywydd cywir. *(9.31; 9.32)*

Bydd y panel newydd yn ymwneud â natur, ansawdd ac ehangder yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael i'r rheiny sy'n chwilio am statws cymwys ac â'r holl staff amser llawn o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid.

Ymddengys nad yw'n bosibl adolygu'r materion hyn heb gyfeirio yn ôl at nodau ac amcanion y Gwasanaeth, ac anghenion y bobl ifanc y mae'n gobeithio eu gwireddu. Y rhain yw sail ein cyngor ymgynghorol arfaethedig ar faterion ieuenctid, ac felly rydym yn credu y dylai'r cyswllt rhwng y ddau gorff dderbyn cydnabyddiaeth addas. Gellir trefnu hyn trwy gynnwys cynrychiolaeth o'r cyngor ymgynghorol ymhlith y Panel ei hun. *(9.33)*

### *Llwybrau i gymwysterau*

Ymddengys i ni y byddai'n addas i'r Panel newydd fabwysiadu'r gwaith o gynnal cofrestr o bobl sydd wedi cymhwyso ar gyfer gwaith ieuenctid. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at adolygiad o'r holl broses o ddatblygu gyrfa ac eglurhad o'r llwybrau i gymwysterau.

Ar y nodyn hwn, mae'n rhaid i ni ddweud rhywbeth am safle athrawon cymwysedig. **Mae'n debyg bod statws athro yn awgrymu cymhwyster awtomatig ar gyfer gwaith ieuenctid. Nid yw'r rhagdybiaeth hon bellach yn dderbyniol,** yn enwedig oherwydd bod y cyrsiau ymarfer dysgu sy'n cynnwys opsiynau ieuenctid wedi lleihau. *(9.34)*

**Byddem yn argymell ehangu cyrsiau sydd ag opsiwn ieuenctid** sydd, yr ydym ar ddeall, yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Awgrymir hyn am dri rheswm.

Yn gyntaf, os caiff athrawon cymwys eu hatal rhag cael eu derbyn yn awtomatig fel gweithwyr ieuenctid cymwys, gellid cael problem cyflenwad os na fyddai mwy o athrawon â'r cymhwyster dwbl.

Yn ail, y cyrsiau hyn yw'r brif ffynhonnell o staff sydd yn gymwys ar gyfer penodiadau cyfun athro / gweithiwr ieuenctid.

Yn olaf, ymddengys i ni bod cwrs sydd yn cydnabod perthnasedd rhwng dau faes gwahanol yn haeddu derbyn cefnogaeth gynyddol am y rheswm hwnnw yn unig. *(9.35)*

### *Cynnwys yr hyfforddiant*

Disgwylir i'r Panel newydd roi sylw brys i gynnwys a chyfeiriad y cwricwlwm

hyfforddi mewn cyrsiau cychwynnol. Bydd ailadrodd rhai o'r beirniadaethau a amlygwyd am y cwrs yn ddigon i ddangos i ba gyfeiriad y bydd angen astudiaeth a thrafodaeth bellach.

**(1)** Mae'r diffyg eglurder am nodau gwaith ieuenctid wedi rhwystro datblygiad cwricwlwm da.

**(2)** Mae cyflogwyr yn beirniadu'r cyrsiau hynny sydd ag agwedd mwy arbrofol am beidio hyfforddi myfyrwyr ar gyfer unrhyw swydd o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid.

**(3)** Nid yw'r cyrsiau mwy traddodiadol yn dal i baratoi myfyrwyr ar gyfer y rôl a amlinellwyd ar ddechrau'r bennod hon.

**(4)** Mae'r cysyniad o 'bobl ifanc a'r gymuned' wedi arwain at gyrsiau nad ydynt yn hyfforddi myfyrwyr ar gyfer cael eu lleoli yn y Gwasanaeth Ieuenctid o gwbl. *(9.36)*

### *Gweithdrefnau Prawf*

Ar y cyfan, mae cydbwysedd y dystiolaeth yr ydym wedi ei hadolygu o blaid cynnal y cysyniad o brofiannaeth, ond rhoi ystyr mwy positif iddo hefyd. Mae hyn yn golygu edrych arno fel parhad o'r broses o ddatblygiad proffesiynol mewn ffordd strwythuredig. Y ffyrdd o gynorthwyo gweithwyr i wneud y defnydd gorau o'r flwyddyn brawf yw trwy hyfforddiant mewn swydd, goruchwyliaeth broffesiynol ac asesiadau. **Mae angen gosod canllawiau ar gyfer yr amcanion hyn.** *(9.37)*

### *Hyfforddiant mewn swydd*

Rydym yn edrych ar hyfforddiant mewn swydd fel proses gyffredinol, sydd yn dechrau yn ystod y flwyddyn brawf, ac yn parhau trwy yrfa broffesiynol y gweithiwr ieuenctid a'r swyddog ieuenctid, weithiau'n ysbeidiol, dro arall mewn cyfnodau mwy dwys. **Rydym yn gweld y Panel newydd fel rhywbeth sydd yn chwarae rôl llawer mwy cyflwyniadol, gan roi arweiniad wrth gynnig y mathau o raglenni y bydd eu hangen ar staff amser llawn o ganlyniad i'r datblygiadau o fewn y gwasanaeth.** *(9.39)*

### *Grantiau gorfodol ar gyfer myfyrwyr*

Bydd y galw am grantiau gorfodol yn gryf os caiff y Gwasanaeth Ieuenctid ei osod ar sylfaen statudol gadarn, a bod unrhyw yrfa oddi mewn iddo yn cael ei strwythuro a'i gyflyru gan brosesau hyfforddi a datblygu addas. Un rheswm penodol dros gyflwyno'r newid hwn yw'r nifer o bobl sydd yn dymuno hyfforddi ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yn nes ymlaen yn eu bywydau, ar ôl iddynt ddilyn gyrfa arall heb unrhyw gymwysterau ar bapur. Y bobl yma fel arfer yw recriwtiaid mwyaf gwerthfawr y Gwasanaeth; ond serch hynny, rydym wedi dod i ddeall dro ar ôl tro eu bod yn cael trafferth i dderbyn grantiau disgresisynol. *(9.43)*

**Rydym ar ddeall bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i bennu cyrsiau addas fel rhai sy'n gymwys i gael grantiau gorfodol, ac rydym yn argymell bod y cyrsiau hyfforddiant llawn mewn gwaith ieuenctid yn cael eu hychwanegu at y rhestr hon.** *(9.44)*

### *Hyfforddi staff rhan-amser a gwirfoddol*

Dylai rhaglenni hyfforddi ar gyfer staff rhan-amser a gwirfoddol barhau i gael eu datblygu ar raddfa leol, ond dylai Cynghorau Ymgynghorol Lleol gymryd y rôl o'u safoni a chydlynu. Rydym ar ddeall bod panel bychan di-gynrychioladol wedi cael ei sefydlu ond sy'n cynnwys amrediad o arbenigedd gwahanol, a hynny er mwyn adolygu anghenion hyfforddi ac i werthuso'r tueddiadau presennol. *(9.50; 9.51)*

### Adnoddau

Rydym wedi cael trafferth i geisio asesu'r holl adnoddau a'u dosbarthiad. Mae peth data sylfaenol wedi mynd ar goll, ac mae'r wybodaeth sydd ar gael, yn

enwedig ym maes staffio, yn gwrthddweud ei hun. Nid yw wedi bod yn dasg hawdd cysoni tystiolaeth sydd yn anghyson, oherwydd bod rhai o'r gwahanol ffynonellau yn ymdrin â rhan o'r maes yn unig, ac maent yn anghyson ac yn wallus am sawl rheswm gwahanol. **O ganlyniad, ein hargymhelliad cyntaf yw cadw ystadegau cynhwysfawr ar gyfer pob sector o'r Gwasanaeth mewn sail ddibynadwy, gyson a thebyg.** Mae'n ofynnol i'r rheiny sydd yn gyfrifol am lunio ac adolygu polisi gael ystadegau digonol ar gyfer holl ystod y Gwasanaeth os ydynt am gynnal eu gwaith yn effeithiol. *(10.1)*

O gyfuno'r holl adnoddau - y cyfraniadau gwirfoddol sydd yn llifo i mewn i'r sector statudol, costau cynnal a chadw'r sector gwirfoddol, y gwaith a wneir gan wirfoddolwyr yn y ddau sector, a'r swm anfesuradwy o ddefnydd rhad o leoliadau ac offer - rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm yr holl adnoddau yn dod i tua £1,000 miliwn. Er mai dim ond rhan fach o holl adnoddau'r Gwasanaeth yw cyfraniad yr awdurdod lleol, hwn yw'r conglfaen sydd yn darparu cefnogaeth strategol ar gyfer y mentrau gwirfoddol sydd yn cynnal yr adeiladwaith ehangach. Byddai'n anghywir i honni y byddai ymdrechion gwirfoddol newydd yn gallu cynnal unrhyw golledion mewn cefnogaeth oddi wrth yr awdurdod lleol; yn hytrach, fe fyddai'r gwrthwyneb yn wir, a byddai'r ddarpariaeth wirfoddol bresennol yn cwympo. *(10.7)*

Fe welodd yr 1970au yr awdurdodau lleol yn cynyddu eu gwariant ar y Gwasanaeth Ieuenctid, a hynny mewn termau real a chymharol, ac mae'n debyg bod yr 1980au wedi gweld dechreuadau'r cwtogi ariannol. Tra bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio er mwyn cynnal y niferoedd o weithwyr amser llawn, y gwir yw bod lleihad yn nifer y staff cyffredinol, yn enwedig ymhlith gweithwyr rhan-amser a swyddogion. Rydym wedi derbyn tystiolaeth o'r maes bod rhai gweithwyr rhan-amser wedi parhau i weithio'r un oriau ar ôl i'r oriau roeddent yn cael eu talu amdanynt gael eu lleihau. Mae hyn yn brawf o ymrwymiad nifer fawr o'r rheiny sydd yn gweithio yn y Gwasanaeth. Serch hynny, mae'n anhepgor bod y lleihad mewn gwaith rhan-amser wedi arwain at golledion mewn darpariaeth. Mae'n debyg bod y lleihad mewn cefnogaeth weinyddol wedi arwain at weithwyr yn treulio mwy o amser ar waith swyddfa cyffredinol a chodi arian, yn hytrach na gweithio gyda phobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd arloesol. Mae hyn hefyd wedi arwain at reolaeth a chydlynu gwannach. *(10.11; 10.13; 10.14)*

Law yn llaw â'r gostyngiad mewn staff sydd yn cael eu hariannu gan yr awdurdod, cafwyd cynnydd yn y personél cysylltiol sydd yn gweithio gyda phobl ifanc ond sy'n cael eu hariannu gan y Comisiwn Gwasanaethau Gweithlu. Mae rhai o'r gweithwyr hyn wedi cael profiad o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid, ond maent ar y cyfan yn cyflawni gwaith na fyddai'r rheiny fel arfer yn ei wneud. *(10.15)*

Ceir tystiolaeth bod nifer cynyddol, er bychan, o ddarpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei gyllido trwy'r Rhaglen Drefol yn arbennig, er nad yw'r holl awdurdodau yn hawlio nac yn derbyn cymorth o'r fath, ac mae'r rheiny sydd yn cael budd o hyn yn cael budd amrywiol. Does dim amheuaeth y croesawir unrhyw gyllideb neu staffio ychwanegol, ond mae'r modd y mae'r rhain wedi dod i'r Gwasanaeth wedi creu problemau. *(10.16)*

Yn gyntaf, mae yna berygl o ddarpariaeth ansefydlog sy'n cael ei reoli yn wael, sydd yn arwain at adnoddau yn cael eu defnyddio mewn ffordd sydd yn osgoi gweithdrefnau monitro a rhwydwaith llunio polisi adran y llywodraeth leol sydd yn gyfrifol am y Gwasanaeth Ieuenctid. Yn bwysicach, pan fydd yr adnoddau ychwanegol hyn yn dod i ben, efallai y bydd yn rhaid cynnal y prosiectau y

maent wedi bod yn eu cefnogi ar draul y gweithgareddau prif ffrwd, a fydd yn arwain at wyrdroi sylfaen darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid. *(10.17)*

Yn ail, mae cynnydd wedi bod yn y cyllid sydd ar gael y tu allan i'r Grant Cefnogaeth Treth ar gyfer achosion penodol a oedd eisoes mewn bodolaeth. Nid ydym yn dymuno awgrymu y dylid safoni graddfeydd y gwariant ar draws y wlad yn hytrach na pharhau gyda'r hyblygrwydd presennol i ymateb i anghenion lleol mewn ymateb i wahanol amgylchiadau. Serch hynny, teimlwn fod yr ystod eang yma o wariant yn arwain at wahaniaethau cynyddol ac annerbyniol yn lefel a safon y ddarpariaeth rhwng gwahanol awdurdodau, a hyd yn oed rhwng ardaloedd o fewn yr un awdurdod. *(10.18)*

Mae yna arwyddion bod mudiadau gwirfoddol yn dod ar draws cyfyngiadau sydd yn eu hatal rhag tyfu mwy neu sydd hyd yn oed yn arwain at gyfyngiadau cyffredinol. Yn gyntaf, mae'r dirwasgiad a'r safonau byw is presennol sydd yn effeithio ar rai pobl wedi ei wneud yn anos i gyrff gwirfoddol godi arian, ac mae hyn wedi arwain at leihad yn nifer y gwirfoddolwyr o fewn y Gwasanaeth. Yn ail, mae prif brosiectau adeiladau'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol lleol wedi dod yn llai nodedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. *(10.20; 10.21)*

Y dewis arall yn hytrach na chodi adeiladau yw llogi lleoliadau. Er bod awdurdodau yn dal i gynorthwyo gyda chostau defnyddio rhai adeiladau, a hynny am bris bychan iawn, efallai bod rhai mudiadau gwirfoddol yn teimlo nad oes modd iddynt fforddio talu'r costau cynyddol. *(10.22)*

Y canlyniad i'r holl gyfyngiadau hyn ar y sector gwirfoddol yw bod lleihad, nid yn gymaint yn nifer y clybiau neu fudiadau, ond yng nghyfanswm eu gweithgareddau. *(10.23)*

Serch hynny, mae'n rhaid i ni gyfaddef nad ydym wedi dod o hyd i unrhyw ffordd o benderfynu a yw'r adnoddau presennol yn ddigonol i ateb y galw. Rydym yn ei ystyried yn ddiffyg ar y Gwasanaeth nad oes peirianwaith yn bodoli i fonitro effeithiolrwydd cyfredol yr adnoddau. **Mae'n werth cyllido'r Gwasanaeth Ieuenctid ar lefel uchel oherwydd ei botensial ar gyfer ateb anghenion cymdeithasol hanfodol.** Dylai'r adnoddau fod yr un mor hawdd eu cyrraedd mewn Gwasanaeth sydd yn cynorthwyo i helpu pobl ifanc rhag mynd i drafferthion ag i'r gwasanaethau sydd yn darparu gwaith achub unwaith mae'r bobl ifanc wedi cyrraedd y fan honno. **Yn ail, dylai cyllid y sector statudol fod wedi ei sianeli trwy'r rhwydwaith llunio polisi arferol sydd gan yr adran awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am y Gwasanaeth Ieuenctid; a dylid lleihau'r anghydraddoldeb cynyddol sydd yn cyrraedd gwahanol ardaloedd.** *(10.25)*

Mae dau brif oblygiad yn y canfyddiadau sydd yn ein hadolygiad o'r adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. **Yn gyntaf, mae'n rhaid i adnoddau gael eu hadolygu a'u gwerthuso yn gywir, beth bynnag yw tarddiad y cyllid.** Mae rhai awdurdodau yn sicrhau hyn eisoes, ond fe ddylai fod yn cael ei wneud yn naturiol gan bawb. **Yn ail, er bod awdurdodau eisoes yn gwneud llawer i hwyluso gwaith gwirfoddol, mae ffyrdd ychwanegol y gallent fod yn cynorthwyo i'w wneud hyd yn oed yn fwy effeithiol.** Trwy reoli'n effeithiol, gallant wella'r cyfraniad y gall gwirfoddolwyr ei wneud, er enghraifft trwy roi cymorth ariannol tuag at gostau teithio. *(10.26; 10.27)*

**Gall awdurdodau gynorthwyo cyrff gwirfoddol i fod mor effeithiol â phosib trwy gynnal cefnogaeth swyddogion, er mwyn iddynt gael y gallu i flaen gynllunio ac i ymateb i anghenion**

**newydd, a thrwy ddarparu mwy o gymorth gyda lleoliadau.** *(10.28)*

Rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau yn barod i ariannu prosiectau cyfalaf gwerth chweil newydd yn y dyfodol, ynghyd â chynlluniau i wella neu i ailsefydlu lleoliadau sydd eisoes yn bodoli. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn awgrymu y dylent archwilio'r posibiliadau o gyllido ar y cyd â chynghorau trefol, os nad ydynt eisoes yn gwneud hynny. *(10.29)*

Ar hyn o bryd, nid yw rheolaeth sirol neu leol ar waith gwirfoddol yn cael ei gyllido yn gyson. **Bydd angen i gyrff gwirfoddol ddod o hyd i arian** er mwyn cysylltu eu strwythurau rheoli â'r rhai o fewn awdurdodau er mwyn caniatáu i'r cyswllt fod yn effeithiol, ac er mwyn **sicrhau bod swyddogion ar gael i ymgymryd â thasgau rheoli ym mhob rhanbarth, isranbarth neu siroedd.** Yn ddelfrydol, ni ddylent fod yn dibynnu'n llawn ar gyllid awdurdodau lleol ar gyfer hyn. *(10.31)*

Mae wedi bod yn amhosib penderfynu a ddylai cyllid y Gwasanaeth fod yn uwch na'r hyn y maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd. Rydym felly yn croesawu'r ffaith y bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei gynnwys ym Mhapur Gwyn blynyddol cynlluniau gwariant y Llywodraeth, sydd yn debygol o ddynodi lefel cyllido hyd at o leiaf 1983 - 84. Rydym yn credu y dylai polisïau gwaelodol gwariant arfaethedig y Gwasanaeth gael eu gwneud yn glir, beth bynnag yw'r newidiadau a allai ddigwydd mewn peirianwaith blociau grant yn y dyfodol. *(10.32)*

### Yr Angen am Ddeddfwriaeth

Mae diffyg fframwaith statudol clir yn peri anhrefn ac ansicrwydd pwrpas, ac mae nifer o swyddogion a gweithwyr o fewn y maes yn teimlo bod hyn yn golygu diffyg pryder cyhoeddus am y Gwasanaeth Ieuenctid. Yn wir, nid yw'r geiriau 'Gwasanaeth Ieuenctid' yn ymddangos mewn unrhyw ddeddf o gwbl ar hyn o bryd. *(11.1)*

Mae'n debyg mai'r hyn sydd ei angen yw rhyw fath o ddarpariaeth ddeddfwriaethol a fydd yn diffinio ystod eang o ddibenion y Gwasanaeth Ieuenctid, ac yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i'r awdurdodau lleol fedru cyflogi staff, darparu adnoddau a chynorthwyo cyrff eraill i wneud hynny hefyd. Ni ddylai'r pwerau hyn fod yn llai eang nag y maent ar hyn o bryd. Ar yr un pryd, dylai fod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol, o ran ystod oedran penodol, nid o reidrwydd i ddarparu gwasanaeth i'w hunain a fydd yn ddigonol yn ei hun, ond i sicrhau bod gwasanaeth digonol yn eu hardaloedd, a hynny mewn un ffordd neu'r llall. Dylai'r ffordd y bydd hyn yn cael ei wneud barhau yn anniffiniedig, ond fe ddylai hefyd gael ei wneud o fewn ymgynghoriad effeithiol a chyson gyda chyrff gwirfoddol a phobl ifanc, gan adnabod pob rôl bwysig sydd gan bob un ohonynt. Rydym o'r farn y gallai'r ddeddf fod yn ddefnyddiol iawn wrth grybwyll nifer o faterion y dylai'r awdurdodau lleol fod yn eu hystyried. Ni fyddai'r rhain yn rhagnodol, ond yn gymorth mawr wrth sefydlu'r fframwaith y gall awdurdodau lleol fod yn gweithio oddi mewn iddo er mwyn gweithredu eu cyfrifoldebau. *(11.4)*

Rydym o'r farn y byddai'n addas i enwi awdurdodau addysg lleol fel cyrff sydd â'r pwerau a'r cyfrifoldebau hyn. Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig iawn i'r Gwasanaeth Ieuenctid gael ei weld fel rhan o'r brif ddarpariaeth addysgiadol. Er ein bod yn rhoi cryn bwysigrwydd ar natur ddeuol y Gwasanaeth Ieuenctid, nid ydym yn credu y dylid mynnu bod yr Awdurdodau Addysg Lleol yn gorfod bod yn gaeth i'w disgrifiad o sut y maent yn ymwneud â'r sector gwirfoddol a phobl ifanc mewn partneriaeth ystyrlon. Yn ein barn ni, dylai fod yn ddigonol, a byddai pwrpas a natur democratiaeth leol yn cael ei wasanaethu'n well, os byddai'n ofynnol

iddynt ymgynghori'n gyson ac yn effeithiol, gan feddwl am ystyriaethau penodol ond heb fod yn orfodol. *(11.5)*

**Cynnig o gymal i'w gynnwys mewn Mesur**

***Amcanion sydd i'w cyflawni gan ddeddfwriaeth sydd yn ymwneud â phwerau a chyfrifoldebau AALl mewn perthynas â'r Gwasanaeth Ieuenctid.***

(1) Dylai awdurdodau addysg lleol barhau i fod â phŵer, heb fod yn llai eang nac sydd eisoes ganddynt o dan Adran 41 a 53 o Ddeddf Addysg 1944, i ddarparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, corfforol, diwylliannol a hamdden sydd yn addas ar gyfer anghenion pob person sydd yn dymuno eu defnyddio, beth bynnag eu hoedran.
(2) Dylai pob awdurdod addysg lleol fod â chyfrifoldeb dros y canlynol, fel rhan o'u swyddogaethau addysgiadol.
(a) asesu'r angen a sicrhau'r ddarpariaeth o gyfleusterau, y tu hwnt i addysg a chyflogaeth amser llawn, lle y gall pobl ifanc dderbyn cymorth i ddarganfod eu hadnoddau corfforol a meddyliol eu hunain, i ddeall y gymdeithas y maent yn rhan ohoni, i gael mynediad i wybodaeth a sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn bod yn rhan annatod o'r gymdeithas honno, ac i wneud cyfraniad i fywyd economaidd a chymdeithasol eu cymuned.
(b) asesu'r angen hwn, a sicrhau'r ddarpariaeth, a hynny er mwyn sicrhau bod ymgynghoriad cyson ac effeithiol rhwng y mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gweithgareddau ychwanegol i bobl ifanc yn yr ardal, a gyda'r bobl ifanc eu hunain.
(c) cydweithio gyda mudiadau gwirfoddol ac awdurdodau addysg lleol eraill i sicrhau bod pobl ar gael i weithio gyda phobl ifanc, boed yn gweithio amser llawn, rhan-amser neu'n wirfoddol; a bod cyfleoedd ar gael i'r bobl hyn i dderbyn hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant mewn swydd.
Ar gyfer yr anghenion hyn, dylid diffinio 'pobl ifanc' fel y rheiny sydd dros 11 oed ond heb fod yn 21 oed eto.
(3) Er mwyn gweithredu'r cyfrifoldebau hyn, dylai pob awdurdod addysg lleol roi ystyriaeth i'r holl bobl ifanc yn eu hardaloedd, ac nid y rheiny sydd eisoes yn aelodau o glybiau neu fudiadau ieuenctid yn unig. Dylent hefyd roi ystyriaeth i'r canlynol:-
(a) diogelu'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor a chwnsela addas;
(b) galluogi ac annog pobl ifanc i sefydlu a chynnal eu gweithgareddau a'u mudiadau eu hunain;
(c) galluogi ac annog pobl ifanc i ymwneud â'u cymuned;
(d) cynorthwyo pobl ifanc i fedru trawsnewid rhwng ysgol a gwaith, a chwrdd ag anghenion pobl ifanc sydd yn ddi-waith;
(e) diwallu anghenion merched a menywod ifanc;
(f) diwallu anghenion pobl ifanc sydd yn perthyn i gymunedau ethnig;
(g) diwallu anghenion pobl ifanc sydd yn dioddef o anableddau meddyliol neu gorfforol;
(h) hyrwyddo ymweliadau rhyngwladol a dealltwriaeth.

---

Adnodd gwybodaeth ganolog wedi ei baratoi a'i argraffu gan y
Biwro Ieuenctid Cenedlaethol, 17 – 23 Stryd Albion, Caerlŷr, LE1 6GD
Cysodwyd gan James Preston Hydref 1982